WG35.5 194

# MARWNAD

AR DRA GALARUS

## FARWOLAETH,

YR ENWOG A'R PARCHEDIG

## *TIMOTHY THOMAS*,

O'R MAES, YN SIR GAERFYRDDIN;

YR HWN A YMADAWODD A'R BYD HWN

TACHWEDD 12. 1768. YN 48 O'I OED.

---

*Gan John Williams,*

*o'r Kilgwyn, yn Sir Benfro.*

---

AIL ARGRAPHWYD GAN I. OVINGTON,

Clapham, Surry.

1818.

PA beth yw 'r byd presennol,
Ond megis tarth naturiol, a'i farwol fawredd!
Pan ddelo 'r brenin angau,
Hen awdur dychryniadau, mae 'n ddi drugaredd:
Er braw, yn brudd rhyw ddydd fe ddaw;
Mae'n horiau 'n gyrru, mewn cof a'u cyfri,
Gan Dduw o ddifri', gall hynny fod gerllaw,
Fe nodwyd y munudau i'n bwrw i rychau rhaw.
Tristau, mae llawer heb ddim llai,
Wel'd Gweinidogion, doeth, rhydd athrawon,
Fu 'n denu dynion, tua Sion i nesau,
Yn nawr yn glampau meirwon, tan gloion yn y clai.

2. Am un Gweinidog odiaeth,
Ar ol ei drwm farwolaeth, daeth hiraeth arw;
Un TIMOTHEUS, a'i osod,
Mawr nifer wy 'n adnabod—yn hynod hwnnw!
Fe aeth, o'n gwydd, i'r ddaear gaeth,
Mewn arch, dan orchudd, fe ddua 'r ddeurudd,
Farewel wiliedydd, a'r mwyn dduwinydd maith,
Wr medrus ei ymadrodd, ar gyhoedd fu'n y
Mae cri, ar led mewn llawer llu, (gwaith.
Waith colli'r enwog, y dyn godidog,
Wr grasol, gwresog, a bywiog oedd, tra bu,
Pregethwr da 'r efengyl, fu 'n anwyl gennym ni.

3. Yn ieuangc fe ddechreuodd,
I nofio fynu i'r nefoedd; ardaloedd dilys,
Fe gwnnodd yn eginyn,
Wych gynnar las fachgenyn, o'r hedyn rheidus;
Aeth maes, yn gryf, trwy rinwedd gras,
Ei uniawn ddoniau, arferai 'n fore,
Ca's fath trwy foethau, o fronnau 'r 'fengyl fras,
Gwr anwyl mewn gwirionedd, fe ddaeth yn wedd-
Er budd, bu ddiwyd yn ei ddydd, (aidd was,
Nid ofnai 'n gnawdol, wynebau 'r bobl,
Pregethai 'n nerthol, wrth reol athrawiaeth rydd,
Er cymmaint a'u gwrth'nebodd, ddiffoddodd dim
(o'i ffydd.

4. At ddwfn argyhoeddiad
Fe ddoi a'i eli o Gilead, dan d'wsiad Jesu;
Gwas'naethwr grasol, isel,
Heb ddilyn ol Gamaliel, oer adail ydy;
Gwr gwiw, a'i felus ddawn dros Dduw,
Rhybuddiai 'r werin, i ffoi 'n gyffredin,
O goel y gelyn, anhydyn gerwin gyw,
Trwy Grist, yr unig enw, gwnai rhai fu'n feirw
Duw Tri, cydweithiai ag ef yn gu, ('n fyw.
Heb hyn yn sicr, ni ddaw pechadur,
I deimlo ei ddolur, anmhur yw 'n natur ni,
Dyw tyniad holl blant dynion, ond mawr elynion
(lu.

5. Mae gloeson mewn eglwysydd,
Waith marw 'r doeth ladmerydd, fy o ddefnydd
A'i fyn'd mor ebrwydd obry, (yma,
I ardal y daeardy, y gwely gwaela;
I'm clyw, bu'r dyn fel genau Duw;
Gwnai maes yu oleu, fod cyflawniadau,
O'n heiddo ninnau, i gyd fel bratiau briw,
'Thal crefydd, o ran arfer, mor llawer, er cael
Daw dydd, a hwn y farn a fydd, (lliw,
Dynoethir dwy-fron, y deng morwynion,
Ceir gwel'd dirgelion, y galon sy dan gudd,
Yr annoeth y pryd hynny fydd yn diffoddi, a'i
(ffydd.

6. Galarnad i galonnau
Fyn'd llewyrch cannwyll oleu, tan ddorau 'r
Hwn ydoedd mor llafurus, (ddaear,
Cl'was miloedd ei lais melus, wylofus lafar,
Gwnai ran, er gweini i gryf a gwan,
Y trwm o galon, caent ddoeth ddanteithion,
Galarwyr Sion, yn lewon ddoent i'r lan,
Gan bwyso ar Jesu grasol, y nefol fywiol fan;
I'n gwydd, gwr rhywiog oedd, a rhwydd,
Pregethu 'r 'fengyl, yr uchel orchwyl,
Wr pura i'r perwyl, a syml yn ei swydd;
Duw'n ddilys a'i harddelodd, fe 'i llwyddodd er
( ein llwydd.

7. I'n golwg rhedodd galar,
I daro ABERDUAR, a'i hygar egin,
Mae PEN-Y-COED yn cwyno,
Gwna i BETHEL wan obeithio, am athraw i'w mei-
Trwm friw gyrhaeddodd BWLCH-Y-RHIW, (thrin.
Yn ol ei osod, mewn dwfn dywod,
Daeth allan drallod, — ban syndod clwyfus yw !
Pan neidiodd i Baradwys, was doeth fy'n eglwys
Gwr glwys, er myn'd mewn cesail cwys, (Duw,
Wrth gael ei symmud, mawr hygar ergyd,
Er bod ei ofid, a'i benyd, o fawr bwys,
'R oedd yntau a'i chwant i'mddattod, heb ofni 'r
(dyrnod dwys.

8. Mae hiraeth am y marw,
Ar wedd, a gruddiau 'r weddw, fel garw gerydd,
A'i ddofion blant amddifaid,
Mewn galar maent i'w gweled, 'r un modd a'u
Mae cwyn, yr wan gan yr wyn, (gilydd;
A'r llesg famogiaid, Duw ddelo i'w gweled,
Yr Oen gogoned, ei ddefaid mae'n eu dwyn,
Was gweddus, ar ei 'sgwyddau, o'u hen drigfan-
Yn nawr, gwir llywydd daear lawr, (nau'n fwyn,
At gynnal Sion, dewised weision,
Bugeiliaid gwiwlon, rhai glewon ddelo 'ar glawr;
Gall Duw o'r llwch a'r lludu, gyfodi meini mawr.

9. Oed Crist — mil, saith cant, cyfain,
Wyth rhagor, gyda thrugain,—ar adain hedodd;
Gwnai 'i oedran yntau i redeg,
A'i dyddwyn, bedwar deuddeg,—byr adeg ydoedd.
Mewn bri, pregethwr buddiol bu;
Wyth mlynedd cyfain, yn rhagor ugain,
Cyn myn'd yn gelain, i lawr i'r ddaeren ddu;
Mae 'i gorph e' wedi gorphen, nid adwaen nawr
Heb lai, er cael ei gloi tan glai, (mo 'i dy.
Mae 'i lyfrau duwiol, a'u llais yn llesiol,
I 'r Cristion grasol, ac i'r annuwiol rai,
I barottoi at angau, y siwrneu sy'n nesau.

NESEWCH, O! garedig gris'nogion,
A doeth weinidogion ein Duw:
Cymmysgwn ein dagrau diragrith,
Am athrist farwolaeth gwr gwiw;
Derchafwn groch lef gyffredinol;
Mor hardd a defnyddiol yr oedd,
Myfi yn ddiweniaeth arweiniaf,
Mewn galar a roddaf ar g'oedd.

2. Dy angau, O TIMOTHY THOMAS!
Bâr alaeth a mawr loes i mi;
Gwynfyd pe 'hedasai fy yspryd
At Dduw yr un ffunud a thi!
Mae 'th enaid di 'nawr yn ei anian,
Lle byth ni ddaw'r aflan a'r ffol,
Yn moli 'mysg myrdd gorfoleddus,
A minneu 'n alarus ar ol!

3. Ti redaist ar frys i *baradwys*;
Yn gynnar ce'st orphwys cyn nos:
O 'mrawd, na fuasai 'th arosfa,
A 'th anwyl daith yma hir oes!
Anfeidrol yw 'n colled a 'n galar,
A thlawd yw ein daiar ar d'ol;
A'r nef a gynnyddodd mewn golud;
Pan neidiodd dy yspryd i'w cho'l.

4. Gadewaist, ein daiar oer, dywyll,
Fel carchar brwnt, erchyll, a du,
A'i gwae, a'i drygionus drigolion,
A'r pechu echryslon y sy';
A'th ofal, a'th lafur, a'th ofid,
A'th babell wan briddlyd mewn bedd:
Cyfodaist o fyd o ryfeloedd,
I dawel ardaloedd o hedd.

5. Na dagrau 'th berth'nasau monwesol,
Na meddyg dymunol, difrad,
Na gweddi 'r eglwysi, a'u gloeson,
Na chariad cym'dogion, a'r wlad,
Na 'th ddoniau, a 'th ddefnydd i ddynion,
Na chwyn gweinidogion, a'u llef,
A all'sent fwy estyn dy fywyd;
Mor addfed yr oeddyt i'r nef.

6. Ymdrechaist deg ymdrech dro yma;
Gorphenaist dy yrfa mewn ffydd;
A glân fuddugoliaeth a gefaist;
O'r diwedd ennillaist y dydd.
'Madewaist a'n daiar yn dawel;
Esgynaist fel angel at Dduw;
Ce'st brofi, cyn myn'd, fod dy *brynwr*,
A'th werthfawr eiriolwr yn fyw.

7. Mi 'th welaf ymhlith y nefolion,
Ar ddisglair fryn Sion—trwy ddrych:
D' eisteddfa sy 'mysg apostolion:
O rhyfedd mor wynion yr y'ch!
Fy [illegible] a'th adnabu yn ebrwydd;
Cyd[illegible]ch eich *Arglwydd* 'nawr fyth.
A *Myrddiwn* ce'st felus gyfarfod;
O na chawn i ddyfod i'ch plith!

8. Canfyddaf di yn cymdeithasu
A'r seintiau a fu ym mhob oes;
Canfyddaf dy freichiau 'n cofleidio
Dy Grist gâ's ei hoelio ar groes;
Canfyddaf di'n rhodio heolydd
Caersalem dragywydd, a gwen,
A'th wisg o ogoniant tra disglair,
A choron o aur ar dy ben.

9. Nag ochain—na phoen—nag afiechyd,
Na galar—nag adfyd—na chroes—
Na llygredd, euogrwydd, a dagrau—
Na gelyn—nag angau—na gloes—
Na phrofedigaethau tra phoethon —
Ddaw 'n agos i'th berson di 'nawr.
'Rwyt ti yn llawenydd dy Arglwydd,
Llawenydd tragywydd a mawr.

10. O ! collais dy felus gyfeillach,
Ni chlywaf fi mwyach o 'th lais;
A'th gynnes ragorol frawdgarwch,
A'th beraidd hawddgarwch parhaus;
Ond etto gobeithiaf yn oestad,
Ar ddydd adgyfodiad plant Duw,
Ca' i weled dy wyneb dymunol,
Mewn gwedd mwy serchiadol a gwiw.

11. Gan i ti fy ngadael mor gynted,
Disgyned dy wisg ar dy wâs ;
Dy wisg o gyfiawnder a phurdeb ;
Dy ddawn, dy ddoethineb a'th ras ;
Doed arnaf fi ddauparth o'th yspryd,
O'th dymmer fwyn, hyfryd, a'th nerth :
O'th ffydd, a'th amynedd ddymunol,
A'th hyder anfeidrol o werth.

12. Ei dduwiol *Hynafiaid*, yn ufudd,
Ddioddefent dros grefydd a Christ:
A'u henwau oedd anwyl ac enwog,
Mewn oesoedd afrywiog a thrist.
Tybygid i rinwedd y rhei'ny,
Sydd mwyach yn moli 'n y nef,
Gan Dduw gael yn rhyfedd ei roddi,
A'u dawn oddi fry, iddo ef.

13. Ei ras, fel ei ddefnydd a'i ddoniau,
A'i dduwiol brofiadau o'ent faith.
Fel *Enoch* a *Noah*, yn nefol,
Y rhodiodd y duwiol ei daith.
Per ffrwythau Paradwys a brofodd
E' beunydd, tra'r oedd yn y byd;
A gwelodd y Ganaan a garai;
Tu ag yno y tynai o hyd.

14. Caredig a doeth fu 'i gymdeithas,
A'i fuchedd oedd addas i'r ffydd;
A diwyd oedd mewn gwiliadwriaeth,
Gan rodio 'i lân daith wrth liw dydd.
Ei farn, ei athrawriaeth, a'i fywyd,
Ei brofiad, a'i ysbryd hardd gwiw,
A oeddent yn wir efangylaidd;
Cydsynient a sanctaidd air Duw.

15. Llefarodd i filoedd yn foreu,
A mawr gymhwysiadau a gâ's;
Rhagorol 'r agorai 'r 'sgrythurau,
Gan ddwyn eu trysorau i maes.
Ho[illegible]raidd, a phoenus y par'odd,
A dewr nes gorphenodd ei daith.
Awdurdod o'r nef a'i canlynodd,
A Duw a fendithiodd ei waith.

16. Yr Jesu a'i werthfawr rasusau,
A rhyfedd rinweddau ei waed,
Oedd ddefnydd ei bur weinidogaeth;
Da gwyr y gym'dogaeth a'r wlad.
Dangosai yn gyson o'r 'sgrythur
Y ffordd i bechadur byth fyw,
Trwy fywyd ac angau 'r cyfryngwr,
Yn ddedwydd ei gyflwr yn Nuw.

17. Ei Athrawiaeth oedd felus i filoedd,
Fel gwlith y diferodd trwy 'n gwlad;
A'i lafur i lawer fu lesiol,
A'i boen oedd o wrol barhâd.
Ei ymborth dymunol oedd ymbil
Am ffyniant i'r 'fengyl a'r ffydd,
A datgan eu dirfawr fendithion,
Er derbyn o ddynion wir fudd.

18. Agorai y gyfraith yn gynnil,
A'rfwynaidd efengyl yn faith,
A chyflwr y dyn annheimladwy.
A diwedd ofnadwy ei daith.
Dosbarthai 'n rhagorol wir grefydd,
A breintiau tragywydd plant Duw.
Ei fuchedd a'i iachus bregethau
Gyttunent tra bu efe byw

19. Ei'madrodd oedd nerthol fel morthwyl,
Ac awchus yng ngorchwyl ei Dduw,
I ddrullio a rhwygo y creigiau,
A brathu 'r arenau i'r byw.
Aneirif annuwiol eneidiau
Deimlasant ei saethau mor llym,
Fel gorfod rhoi ymaith eu harfau,
A'mostwng i freichiau mwy'u grym.

20. Fe chwiliai am ddirgel bechodau,
A'r sarph a orweddai yngh udd:
Ni thwyllai fe galon lygredig.
Gwahanai rhwng rhyfig a ffydd.
Yn graff fe ddesgrifiai 'r rhagrithwr,
A'r diras arddelwr a'i ran:
Ond gweiniai ragorol gysuron
I'r enaid gwir ffyddlon a gwan,

21. Tân nefol trwy 'i enaid ennynai,
Fel seraph fe fflamiai dros Dduw;
Gwresogrwydd y didwyll brif *Dadau*
Oedd yn ei bregethau yn byw.
Ei 'madrodd oedd barod a medrus,
A'i araith ddeffrous a thra pher,
A'i flasus athrawiaeth ddewisol
Oedd frasder dymunol a mer.

22. Fe losgodd ei ganwyll yn ddisglair,
Ei wisg o gyfiawnder oedd wen;
Llewyrchodd er clod i'w Jachawdwr,
Derchafodd ei *Brynwr* a'i *Ben*:
Datganodd 'i ogoniant i ddynion,
Gogoniant ei berson a'i ras:
A'i dyner a'i daer weinidogaeth
Mawr fendith ac effaith a gâ's.

23. Ei gariad at Grist oedd ragorol,
Cyd-weithiai yn nerthol a'i ffydd:
Ei nefol a'i bur wirioneddau
Yn ddoeth fe'mddiffynai 'n ei ddydd:
Ei B[illegible] oedd fêl yn ei eneu,
A'i 'fengyl oedd foethau a gwin;
A'i enaid yn fynych, yn ddiau,
Gâ's felus gysanau ei fin.

24. Ei yspryd gwir rasol a gwresog
Oedd gadarn a bywiog a hoff:
Dwys wiliai y duwiol forwynion,
Cyd-deimlai a'r cleifion a'r cloff.
Er trymed oedd baich ei afiechyd,
A'i waeledd a'i wendid o hyd,
Ar aden o gariad fe 'hedai,
I borthi 'i ddiadellau 'n ei bryd.

25. Fe driniai achosion yn drefnus,
Achosion yr eglwys a'i dŷ :
Yn gweithio dros Dduw, neu dros ddynion
Doeth, bywiog, a ffyddlon y bu.
Amcanai at gynnydd cris'nogion,
Mewn cariad, cysuron a ffydd ;
A ffyniant cyffredin i grefydd
A geisiai fe beunydd yn brudd.

26. Y tiroedd o amgylch glan *Teifi*—
Yr eira — yr oerni — a'r rhew —
Yr amryw ardaloedd trwy *Gymru*,
Lle bu e' 'n llefaru mor lew —
Y geirwon fynyddoedd mawr corniog—
Y tywydd tymhestlog a du—
A llawer o luoedd galarus—
Wybuant mor boenus y bu.

27. Bu'n agos ddeng mlynedd a'r hugain,
Er prin wyth a deugain bu fyw,
Yn foreu a hwyr yn myfyrio,
Yn ddyfal lafurio dros Dduw.
Er cauad ei eneu gan angau,
Llefara 'n ei *lyfrau* o hyd ;
A mola 'n ei *hymnau* dymunol,
'Mysg Seintiau sy 'r ol yn y byd.

28. Pan syrthiodd yr atteg tra nerthol,
Mor fawr a neillduol ei bwys!
Yr eglwys yn eang a siglodd,
A'r ddaiar a grynodd yn ddwys!
Aeth braw drwy anneddau 'r mynyddoedd,
A'n bro a uch'neidiodd yn brudd
A'i frodyr trwy *Frydain* sy 'n cwyno,
A'r dagrau yn llifo 'r eu grudd !

29. Yr *Eglwys* a'i anwyl *Berth'nasau*
A brofant ei eisieu yn brudd;
A'r gwledydd a gawsent ei glywed,
A'r siroedd mewn colled y sydd.
Yr Arglwydd fo 'n dad i'r *Amddifaid*,
A bugail i'r *Defaid* sydd drist,
A *Rhysgwydd* i'r *Weddw* wylofus,
A byddent gysurus yng Nghrist.

30. Cei etto 'n fwy siriol, ferch Sion,
Ei weled yn wiwlon ei wedd,
Mewn gwisg o drag'wyddol ddisgleirdeb,
Ar dir anfarwoldeb, a hedd;
A newid dy dristwch a 'th gystydd,
Lle mae' mewn llawenydd ya byw,
A'th ddagrau, am fôr o ddigrifwch,
A nefol hyfrydwch yn Nuw.

31. O! *Arglwydd* a *Bugail* yr eglwys,
Ar d' allu mae 'n gorphwys o hyd,
Attolwg, yn dirion tosturia,
Wrth ddefaid dy borfa trwy 'r byd:
A danfon fugeiliaid i'w gwilio—
Rhag dyfod i'w blino un blaidd,
Bugeiliaid a olygant d' ogoniant—
Bugeiliaid a borthant dy braidd.

32. Chwi, *Frodyr*, a phawb yn gyffredin,
Sy'n cwynfan yn flin trwy y wlad,
Dilynwch, drwy 'ch breion flynyddoedd,
Y llwybrau dramwyodd ei draed.
'R y'm *Ninnau* yn 'hedeg bob ennyd,
Fel saethau, trwy 'r byd tua'r bedd;
Duw 'nêl i ni 'r un wedd ac *Yntau*,
Gael gorphen ein dyddiau mewn hêdd!